**HYSBYSIAD BOD GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL WEDI EI GADARNHAU**

**ADRAN 53 O DDEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**MAP A DATGANIAD DIFFINIOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (YCHWANEGU CILFFORDD GYFYNGEDIG YN ARWAIN O LWYBR TROED 8 CEFN CRIBWR I TY-ISAF ROAD) RHIF 1 2024**

Cadarnhawyd y Gorchymyn uchod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 14/01/2026. Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw addasu Map a Datganiad Diffiniol yr ardal drwy ychwanegu atynt y Gilffordd Gyfyngedig o'r gyffordd â Llwybr Troed 8 Cefn Cribwr wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 85458209), gan barhau tua'r gogledd-ogledd-ddwyrain yn gyffredinol am ryw 185 metr hyd at ei chyffordd â'r briffordd gynaliadwy bresennol yn Tŷ-Isaf Road, Pwynt B (Cyfeirnod Grid SS 85518226).

Daeth y gorchymyn yn effeithiol ar y dyddiad y cafodd ei gadarnhau, ond os bydd unrhyw berson a dramgwyddir gan y gorchymyn yn dymuno amau ei ddilysrwydd neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddo ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf honno neu mewn unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf honno o ran y Gorchymyn, caiff wneud cais i'r Uchel Lys o dan Atodlen 15 paragraff 12 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, o fewn 42 ddiwrnod ar ôl 22/01/2026.

Gellir archwilio copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd ac o fap y gorchymyn ac maent ar gael yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Abercynffig, Heol-y-Llyfrau, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 9PL yn ystod eu horiau agor; dydd Llun 9:30 – 13:00, 14:00 – 20:00, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener 9:30 – 13:00, 14:00 – 17:00, a dydd Sadwrn 9:30 – 15:00 neu gellir eu harchwilio ar-lein yn https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/trwyddedu/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/ neu drwy gysylltu a rightsofway@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio: 01656 642545. Yn ychwanegol, gellir archwilio copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd a map y gorchymyn neu maent ar gael yn rhad ac am ddim yn y Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa.

Os oes arnoch angen yr hysbysiad mewn fformat arall, er enghraifft print brasach, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio yn y cyfeiriad isod neu drwy'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Ffôn: 01656 643643.

**DYDDIEDIG:22/01/2026**

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB

HIG001-1098/ A763/1/221  NC